Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

O F F E R Y N N A U   S T A T U D O L
C Y M R U

# 2024 Rhif 972 (Cy. 166)

# PENSIYNAU GWASANAETHAU CYHOEDDUS, CYMRU

## Rheoliadau Cynlluniau Pensiwn y Diffoddwyr Tân (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2024

### NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio:

- Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân (Cymru) 2015 ("Cynllun Pensiwn 2015"), a nodir yn Rheoliadau Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân (Cymru) 2015;
- Rheoliadau Pensiynau Diffoddwyr Tân (Gwasanaeth Rhwymedïol) (Cymru) 2023 ("Rheoliadau Gwasanaeth Rhwymedïol 2023");
- Cynllun Pensiwn Newydd y Diffoddwyr Tân (Cymru) ("Cynllun Pensiwn 2007"), a nodir yn Atodlen 1 i Orchymyn Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân (Cymru) 2007.

Mae rheoliad 3 yn diwygio Cynllun Pensiwn 2015 i gywiro problem â phrisio hawliau pensiwn cronedig ar gyfer 2021 a 2022.

Ailbrisir pensiynau cronedig aelodau actif o Gynllun Pensiwn 2015 bob blwyddyn. Cynhelir yr ailbrisiad yn unol â gorchymyn blynyddol a wneir gan Drysorlys EF o dan adran 9(2) o Ddeddf Pensiynau'r Gwasanaethau Cyhoeddus 2013. Roedd yr ychwanegiadau y darparwyd ar eu cyfer yng Ngorchymyn Ailbrisio Pensiynau'r Gwasanaethau Cyhoeddus 2021 a Gorchymyn Ailbrisio Pensiynau'r Gwasanaethau Cyhoeddus 2022 yn seiliedig ar ffigurau enillion wythnosol cyfartalog dros dro a gyhoeddwyd gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol ym mis Tachwedd ar gyfer pob un o'r priod flynyddoedd. Mae rheoliad 3 o'r Rheoliadau hyn yn diwygio Cynllun Pensiwn 2015 fel bod yr ailbrisiad ar gyfer y ddwy flwyddyn hynny

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

yn adlewyrchu'r ffigurau terfynol o fis Rhagfyr a gyhoeddwyd gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol ar gyfer pob un o'r blynyddoedd hynny. Gwna hynny drwy ychwanegu swm, wrth brisio hawliau pensiwn cronedig buddiolwr ar gyfer 2021 a 2022, sy'n cynrychioli'r gwahaniaeth rhwng y ffigurau canran a ddefnyddiwyd yn y ffigurau dros dro ar gyfer mis Tachwedd, a'r ffigurau terfynol ar gyfer mis Rhagfyr, ar gyfer y blynyddoedd hynny. Mae hefyd yn gwneud newid cyfatebol i brisiad pensiwn cronedig aelod sy'n trosglwyddo ei bensiwn i gynlluniau pensiwn sector cyhoeddus eraill penodol.

Mae rheoliad 4 yn diwygio Rheoliadau Gwasanaeth Rhwymedïol 2023 er mwyn gwneud rhai mân gywiriadau.

O ganlyniad i reoliadau 3 a 4, "rheoliadau cynllun" yw'r Rheoliadau hyn o fewn yr ystyr a roddir i "scheme regulations" gan adran 1(4) o Ddeddf Pensiynau'r Gwasanaethau Cyhoeddus 2013. Yn ogystal, o ganlyniad i reoliad 4, "rheoliadau cynllun" yw'r Rheoliadau hyn o fewn yr ystyr a roddir i "scheme regulations" gan adran 37 o Ddeddf Pensiynau'r Gwasanaethau Cyhoeddus a Swyddi Barnwrol 2022 ("DPGCSB 2022") mewn perthynas â gwasanaeth rhwymedïol aelod mewn cynllun pensiwn diffoddwyr tân. Gwneir rheoliad 4 o'r Rheoliadau hyn, i'r graddau sy'n ofynnol gan adran 27 o DPGCSB 2022, yn unol â Chyfarwyddydau Pensiynau'r Gwasanaethau Cyhoeddus (Arfer Pwerau, Digolledu a Gwybodaeth) 2022, a wnaed o dan yr adran honno. Mae i reoliadau 3 a 4 effaith ôl-weithredol, fel y'i caniateir gan adran 3(3)(b) o Ddeddf Pensiynau'r Gwasanaethau Cyhoeddus 2013.

Mae rheoliad 5 yn diwygio Cynllun Pensiwn 2007 er mwyn gwneud mân gywiriad i rywfaint o'r testun Cymraeg a fewnosodwyd ynddo gan Orchymyn Cynlluniau Pensiwn a Chynllun Digolledu'r Diffoddwyr Tân (Diwygio) (Cymru) 2024.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, lluniwyd asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn. Gellir cael copi oddi wrth: Y Gangen Gwasanaethau Tân, Llywodraeth Cymru, Rhyd-y-car, Merthyr Tudful, CF48 1UZ.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

O F F E R Y N N A U   S T A T U D O L
C Y M R U

# 2024 Rhif 972 (Cy. 166)

# PENSIYNAU GWASANAETHAU CYHOEDDUS, CYMRU

## Rheoliadau Cynlluniau Pensiwn y Diffoddwyr Tân (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2024

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *19 Medi 2024* |
| *Gosodwyd gerbron Senedd Cymru* | *23 Medi 2024* |
| *Yn dod i rym* | *21 Hydref 2024* |

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau hyn drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adrannau 34(1), (2) a (4), a 60(2)(a) o Ddeddf y Gwasanaethau Tân ac Achub 2004(**1**), a freiniwyd bellach yng Ngweinidogion Cymru, adrannau 1(1) a (2)(f), a 2(1) (ynghyd â pharagraff 6(b) o Atodlen 2) ac adran 3(1), (2) a (3)(a) a (b) o Ddeddf Pensiynau'r Gwasanaethau Cyhoeddus 2013(**2**) ("Deddf 2013") ac adrannau 18(1), 19(1), (4) a (5), 21(1) i (3) a 22(1) a (6) o

(**1**) 2004 p. 21 ("Deddf 2004"). Rhoddwyd y pwerau a roddir gan adran 34 i Gynulliad Cenedlaethol Cymru, i'r graddau y maent yn gymwys o ran Cymru, gan adran 62 o Ddeddf 2004. Fe'u trosglwyddwyd i Weinidogion Cymru yn rhinwedd adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32), a pharagraffau 30 a 32 o Atodlen 11 iddi. Diwygiwyd adran 34 gan baragraff 27 o Atodlen 8 i Ddeddf Pensiynau'r Gwasanaethau Cyhoeddus 2013 (p. 25); mae diwygiadau eraill i'r adran hon ond nid yw'r un ohonynt yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn. Diwygiwyd adran 60 gan adran 9(3) o Ddeddf Lleoliaeth 2011 (p. 20); mae diwygiadau eraill i'r adran hon ond nid yw'r un ohonynt yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn. Caniateir i'r pŵer i wneud gorchymyn o dan adran 34 o Ddeddf 2004 gael ei arfer i wneud rheoliadau yn rhinwedd adran 39 o Ddeddf Deddfwriaeth (Cymru) 2019 (dccc 4).

(**2**) 2013 p. 25. Diwygiwyd adran 3 gan adran 94(2) a (3) o Ddeddf Pensiynau'r Gwasanaethau Cyhoeddus a Swyddi Barnwrol 2022 (p. 7); mae diwygiadau eraill i'r adran hon ond nid yw'r un ohonynt yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

Ddeddf Pensiynau'r Gwasanaethau Cyhoeddus a Swyddi Barnwrol 2022(**1**).

Yn unol ag adran 3(5) o Ddeddf 2013, gwneir rheoliadau 3 a 4 o'r Rheoliadau hyn â chydsyniad y Trysorlys.

Yn unol ag adran 34(5) o Ddeddf y Gwasanaethau Tân ac Achub 2004, ymgynghorodd Gweinidogion Cymru â'r personau hynny a oedd yn briodol yn eu barn hwy, mewn perthynas â rheoliad 5, cyn gwneud y Rheoliadau hyn.

Yn unol ag adran 21(1) o Ddeddf 2013, mae Gweinidogion Cymru wedi ymgynghori â chynrychiolwyr y personau hynny y mae'n ymddangos yn debygol i Weinidogion Cymru y bydd rheoliadau 3 a 4 o'r Rheoliadau hyn yn effeithio arnynt.

I'r graddau sy'n ofynnol gan adran 27 o Ddeddf Pensiynau'r Gwasanaethau Cyhoeddus a Swyddi Barnwrol 2022, gwneir rheoliad 4 o'r Rheoliadau hyn yn unol â chyfarwyddydau'r Trysorlys(**2**) a wnaed o dan yr adran honno.

**Enwi a dod i rym**

**1.** Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Cynlluniau Pensiwn y Diffoddwyr Tân (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2024.

**2.** Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 21 Hydref 2024.

**Diwygio Rheoliadau Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân (Cymru) 2015**

**3.**—(1) Mae Rheoliadau Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân (Cymru) 2015(**3**) wedi eu diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn rheoliad 3 (dehongli)—

(a) yn y diffiniad o "addasiad mynegai", ym mharagraff (a), ar ôl "enillion" mewnosoder "a'r atodiad mynegai";

(b) yn y lle priodol mewnosoder—

"ystyr "atodiad mynegai" ("*index supplement*") yw swm o bensiwn enilledig sy'n hafal i werth yr addasiad mynegai pan

(**1**) 2022 p. 7.
(**2**) Cyfarwyddydau Pensiynau'r Gwasanaethau Cyhoeddus (Arfer Pwerau, Digolledu a Gwybodaeth) 2022.
(**3**) O.S. 2015/622 (Cy. 50), y mae diwygiadau iddo nad ydynt yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

fo'r newid mewn enillion wedi ei gynyddu—

(a) ar gyfer 2021, 0.2% uwchlaw'r swm a bennir yng Ngorchymyn Ailbrisio Pensiynau'r Gwasanaethau Cyhoeddus 2021 2021(**1**);

(b) ar gyfer 2022, 0.4% uwchlaw'r swm a bennir yng Ngorchymyn Ailbrisio Pensiynau'r Gwasanaethau Cyhoeddus 2022(**2**);";

(c) yn y diffiniad o "mynegai ailbrisio mewn-gwasanaeth", ar y diwedd mewnosoder "ac, yn y cynllun hwn, mae'n cynnwys yr atodiad mynegai".

**Diwygio Rheoliadau Pensiynau Diffoddwyr Tân (Gwasanaeth Rhwymedïol) (Cymru) 2023**

**4.**—(1) Mae Rheoliadau Pensiynau Diffoddwyr Tân (Gwasanaeth Rhwymedïol) (Cymru) 2023(**3**) wedi eu diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn rheoliad 22(2), yn y diffiniad o "swm cynllun gwaddol", ar ôl "adran 29(2)" mewnosoder "o DDLlPh 1999".

(3) Yn rheoliad 23(2)(b), yn y testun Cymraeg, yn lle "a'r swm amgen" rhodder "ac mae'r swm amgen".

(4) Yn rheoliad 29(1)(a), yn y testun Saesneg, yn lle "divorce, annulment" rhodder "divorce or annulment".

(5) Yn rheoliad 34(2)(a)—

(a) yn y testun Cymraeg, yn lle'r coma ar ôl "rhwymedïol cyfan" rhodder cromfach agoriadol;

(b) ar ôl "reoliad 42(2)" mewnosoder cromfach gloi.

(6) Yn rheoliad 39(2), yn y testun Cymraeg, ar ôl "pe bai'r hawliau hynny" mewnosoder "wedi bod".

(7) Yn rheoliad 41(4), yn y testun Cymraeg, yn lle "adran 89(1)" rhodder "adran 86(1)".

(8) Yn rheoliad 46, yn is-baragraff (ii) o baragraff (2)(b) a amnewidiwyd, yn y testun Cymraeg, yn lle "nad yw'r" rhodder "bod y".

(9) Yn rheoliad 65(4), yn y testun Cymraeg, yn lle "gwasanaeth adferadwy", yn y ddau le y mae'n digwydd, rhodder "gwasanaeth rhwymedïol".

---

(**1**) O.S. 2021/276.
(**2**) O.S. 2022/215.
(**3**) O.S. 2023/961 (Cy. 156).

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

**Diwygio testun Cymraeg Atodlen 1 (Cynllun Pensiwn Newydd y Diffoddwyr Tân (Cymru)) i Orchymyn Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân (Cymru) 2007**

**5.** Yn Atodlen 1 i Orchymyn Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân (Cymru) 2007(**1**), ym Mhennod 2 o Ran 11, yn rheol 5C(7), yn y testun Cymraeg, ar ôl "Pan" mewnosoder "nad".

Cydsyniwn i wneud rheoliadau 3 a 4 o'r Rheoliadau hyn.

*Jeff Smith*
*Anna Turley*
Dau o Arglwydd Gomisiynwyr Trysorlys Ei Fawrhydi
11 Medi 2024

*Jayne Bryant*
Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Thai, un o Weinidogion Cymru
19 Medi 2024

(**1**) O.S. 2007/1072 (Cy. 110). Mewnosodwyd rheol 5C o Ran 11 o Atodlen 1 i'r Gorchymyn gan O.S. 2024/13 (Cy. 5). Mae offerynnau diwygio eraill ond nid yw'r un ohonynt yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn.